**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD MAWRTH, 29 AWST 2023**

**IS-BWYLLGOR (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn (Cadeirydd)

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

C.Griffiths, D. Phillips, N.Blackmore, T.Rees a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Llewelyn yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 5. CYNLLUN MÂN BROSIECTAU CYNGHORAU CYMUNED - SHOWMENS GUILD SOUTH WALES AND NORTHERN IRELAND

Nododd Aelodau'r Cabinet drafodaeth y Pwyllgor Craffu blaenorol a oedd yn canolbwyntio ar yr adolygiad presennol o Bolisi'r Gronfa Grantiau Amrywiol.

**Penderfynwyd:**

bod y cais untro am gymorth grant hyd at £11,000 i Urdd Siewmyn De Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Penderfynu ar swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r cais grant a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Roedd y penderfyniadau'n rhai brys i'w rhoi ar waith ar unwaith, yn dilyn caniatâd y Cadeirydd Craffu perthnasol, ac felly nid oedd yn destun y weithdrefn galw i mewn.

## 6. CYNLLUN MÂN BROSIECTAU CYNGHORAU CYMUNED - PWYLLGOR CARNIFAL TONNA

**Penderfynwyd:**

bod y cais untro am gymorth grant hyd at £900 i Bwyllgor Carnifal Tonna, yn cael ei gymeradwyo.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Penderfynu ar swm y cymorth ariannol mewn perthynas â'r ceisiadau am grantiau a dderbyniwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Roedd y penderfyniadau'n rhai brys i'w rhoi ar waith ar unwaith, yn dilyn caniatâd y Cadeirydd Craffu perthnasol, ac felly nid oedd yn destun y weithdrefn galw i mewn.

**CADEIRYDD**